# JONES, ROBERT (1769 - 1835), clerigwr

**Enw:** Robert Jones
**Dyddiad geni:** 1769
**Dyddiad marw:** 1835
**Rhiant:** Edward Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Trevor Hugh Bowen

a chyfaill y bardd William Wordsworth; ganwyd fis Tachwedd 1769 yn Plas-yn-llan, Llangynhafal, sir Ddinbych, mab Edward Jones, atwrnai. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Rhuthyn cyn mynd i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, lle yr oedd yn gyd-efrydydd â Wordsworth. Bu gyda'r bardd hwnnw ar daith gerdded ar gyfandir Ewrop yn 1790 ac ar daith arall trwy Ogledd Cymru yn 1791. Ordeiniwyd ef yn Llanelwy yn 1792 a bu'n gymrawd ei goleg hyd 1806; y flwyddyn honno dewiswyd ef yn rheithor Souldern, swydd Rhydychen. Ymwelodd Wordsworth ag ef yn Souldern yn 1820 a thrachefn yn 1824 ym mhersondy Llanfihangel-glyn-myfyr. Parhaodd Jones yn rheithor Souldern hyd ddiwedd ei oes, eithr treuliodd gyfnodau yng Ngogledd Cymru. Bu farw 5 Ebrill 1835 yn Plas-yn-llan; ni fu yn briod.

## Awdur

**Y Parchedig Trevor Hugh Bowen**

## Ffynonellau


T. H. Bowen, 'Robert Jones,' yn *English*, Gwanwyn 1950

*[1]The Poetical Works of William Wordsworth. Poems Written in Youth, Poems Referring to the Period of Childhood, Rhydychen, 1940. [2]The Poetical Works of William Wordsworth. Poems Founded on the Affections, Poems on the Naming of Places, Poems of Fancy, Poems of the Imagination, Rhydychen, 1944. [3]The Poetical Works of William Wordsworth. Evening Voluntaries, Itinerary Poems of 1833* (Rhydychen 1947) (gol. E. de Selincourt), iii, 452

*Llawysgrif Llechid Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 23

D. M. Lloyd, 'Wordsworth and Wales,' yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vi, 338-52


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734341


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu